

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

---

---

# Craffu ar Gyfrifon 2020-21

Comisiwn y Senedd



## Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd .....</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion .....</b>	<b>6</b>
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>7</b>
<b>2. Craffu ar Gyfrifon 2020-21 .....</b>	<b>8</b>
Perfformiad ariannol a gweithredol.....	8
Effaith Covid .....	9
Caffael a chontractwyr .....	10
Staffio.....	11
Cynaliadwyedd .....	16

---

## Rhagair y Cadeirydd

Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yw dwyn cyrff a ariennir yn gyhoeddus i gyfrif ar sut y maent yn gwario arian cyhoeddus. Yn ganolog i'r rôl hon y mae ein gwaith craffu ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd i barhau â'r gwaith gwerthfawr hwn a sefydlodd ein Pwyllgorau blaenorol ac i gynnwys gwaith craffu blynyddol ar Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Senedd. Credwn ei bod yn bwysig myfyrio ar berfformiad corff corfforaethol y Senedd sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi'r Aelodau.

Bu'n flwyddyn heriol i Gomisiwn y Senedd wrth iddo barhau i addasu ei drefniadau gweithio yn ystod y pandemig byd-eang parhaus. Ar yr un pryd, roedd yn parhau i weithio tuag at gyrraedd ei nodau a thargedau corfforaethol, gan sicrhau bod iechyd a llesiant staff ymhlith ei flaenoriaethau pennaf. Rydym yn canmol Comisiwn y Senedd ar ei berfformiad yn ystod y 12 mis diwethaf wrth iddo ymdrechu am ragoriaeth o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y sector cyhoeddus.

Ochr yn ochr â'r heriau hyn y bu ysgogiad o'r newydd tuag at fwy o gynaliadwyedd yn y ffordd y mae Comisiwn y Senedd yn rheoli ei ystâd. Er bod y pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer cyflawni rhai o'r nodau hyn, bydd angen ymrwymiad gan bawb yn y dyfodol i gyflawni'r newidiadau diwylliannol y bydd eu hangen i gyrraedd potensial Comisiwn y Senedd i ddod yn gwbl garbon niwtral.

Mae'r blynyddoedd i ddod yn gyfle i Gomisiwn y Senedd barhau ar ei daith o drawsnewid yn sefydliad enghreifftiol arloesol, cynhwysol a chynaliadwy ac rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn helpu i lywio hyn.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Er budd mwy o dryloywder, rydym yn argymell, cyn y gwaith craffu blynyddol ar y cyfrifon, y dylai'r Comisiwn roi manylion i'r Pwyllgor sy'n crynhoi ac yn casglu tanwariant ac yn nodi penderfyniadau a wneir i ailddyrranu tanwariant. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn ar fformat tebyg i'r llythyr a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid..... 8

**Argymhelliad 2.** Er mwyn helpu'r Comisiwn i gynyddu ei wariant ar gyflenwyr o gwmnïau yng Nghymru, rydym yn argymell ei fod yn cynnal ymarfer i rannu terfynau gwariant contract, h.y. mewn dosbarthiadau llai na £10,000, llai na £50,000 llai na £100,000, llai na £500,000 a mwy na £500,000 a dadansoddi lledaeniad ariannol y contractau a ddyfernir i nodi cyfleoedd i rannu contractau mwy ac i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd cwmnïau llai yng Nghymru yn cyflwyno cynnig llwyddiannus am gontract. Byddem yn croesawu diweddariad bob chwe mis ar y cynnydd yn y maes hwn. .... 11

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i weithio i ddeall ysgogwyr sy'n arwain at y gynrychiolaeth isel yn ei weithlu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac yn cryfhau polisiau ac yn cymryd camau i leihau rhwystrau canfyddedig a bylchau cyflog i'r grwpiau hyn a grwpiau amrywiol eraill. .... 14

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y Comisiwn yn darparu diweddariad bob chwe mis ar y defnydd o blastig untro. .... 18

## 1. Cyflwyniad

- 1.** Mae Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") yn gorff corfforaethol a'i ddiben yw darparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau y mae ar Senedd Cymru eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Comisiwn ei hun yn cynnwys pum Aelod o'r Senedd: y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebir gan y grwpiau gwleidyddol mwyaf yn y Senedd.
- 2.** Fel corff corfforaethol, mae'r Comisiwn yn berchen ar eiddo ac yn cyflogi staff i reoli ystâd ac adnoddau'r Senedd, i gefnogi trafodion seneddol ac i ymgysylltu â phobl Cymru.
- 3.** Gellir grwpio cyfrifon Comisiwn y Senedd yn ddau faes penodol:
  - Cyflogi staff seneddol, cynnal a chadw ystâd y Senedd, a darparu adnoddau a gwasanaethau seneddol eraill.
  - Cyflogau, argostau a lwfansau cysylltiedig Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth, a bennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.
- 4.** Mae cyfrifon y Comisiwn yn adrodd ar faterion ariannol y mae ganddo reolaeth drostynt a materion ariannol nad oes ganddo reolaeth drostynt. Eleni, roedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 y Comisiwn yn destun archwiliad gan Ann-Marie Harkin, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio yn Archwilio Cymru. Llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 22 Mehefin 2021. Nid oedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sylwadau sylweddol i'w gwneud ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn ar gyfer 2020-21.
- 5.** Cawsom dystiolaeth gan Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd), Ken Skates AS (Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu) a Nia Morgan (Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiwn y Senedd) ar 6 Hydref 2021. Nodir ein canfyddiadau isod.

## 2. Craffu ar Gyfrifon 2020-21

### Perfformiad ariannol a gweithredol

6. Rydym yn falch y gosodwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 mewn da bryd, a'u bod wedi'u cyflwyno'n dda, gyda defnydd effeithiol o ddiagramau a ffeithluniau.
7. Nodwn yr adroddodd y Comisiwn ar danwariant cyfanredol £985,000 yn erbyn cyfanswm ei gyllideb net (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol neu 'GRF') £58.6 miliwn, sef 1.7 y cant o'r gyllideb gymeradwy.
8. Nid oedd ein Pwyllgor blaenorol yn cefnogi DPA presennol y Comisiwn a geisiodd gynyddu gwariant y Comisiwn i'r eithaf. Mae'r cyfrifon yn adrodd ar berfformiad yn erbyn y mesur neu darged o gael tanwariant rhwng 0 y cant ac 1.5 y cant o'r gyllideb gyffredinol a reolir gan y Comisiwn (DPA 11). Argymhellodd y Pwyllgor ar y pryd y:

*"dylai Comisiwn y Senedd gael gwared ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol a osodwyd i leihau tanwariant a chanolbwyntio, yn hytrach, ar ddefnyddio adnoddau ariannol mor effeithlon â phosibl".*

9. Ymatebodd y Comisiwn fod y dangosydd yn ddefnyddiol yn fewnol ac y byddai dangosyddion perfformiad corfforaethol yn cael eu hadolygu yn ystod 2021-22. Byddai dangosyddion ychwanegol i roi eglurder ar effeithlonrwydd yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith erbyn 2022-23.
10. Yn ystod y gwaith craffu eleni, clywsom fod tanwariant yn cael ei fonitro'n agos a bod y Comisiwn yn ailflaenoriaethu gwariant i'r meysydd lle y mae ei angen i ymateb i bwysau wrth iddynt godi.<sup>1</sup>
11. Rydym yn cydnabod bod y Comisiwn yn mabwysiadu dull ystyriol o reoli ei danwariant ond rydym yn croesawu ei ymroddiad i adolygu ei ddangosyddion perfformiad corfforaethol a byddwn yn aros am ganlyniad hyn o ran ei DPA sy'n ymwneud â thanwariant. Rydym o'r un farn â'n Pwyllgor blaenorol bod angen llawer o eglurder i sicrhau y caiff arian ei wario'n effeithlon.

**Argymhelliad 1.** Er budd mwy o dryloywder, rydym yn argymhell, cyn y gwaith craffu blynyddol ar y cyfrifon, y dylai'r Comisiwn roi manylion i'r Pwyllgor sy'n crynhoi ac yn casglu tanwariant ac

---

<sup>1</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 18

yn nodi penderfyniadau a wneir i ailddyrranu tanwariant. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn mewn fformat tebyg i'r llythyr a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid.

## **Effaith Covid**

**12.** Ysgrifennodd y Comisiwn at y Pwyllgor Cyllid ar 26 Mai 2021, gyda gwybodaeth am y costau a'r arbedion o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn ystod 2020-21. Roedd hyn yn cynnwys atodiad yn dangos newidiadau i gyllideb y Gronfa Prosiectau, gyda chynnydd net £176,000: Tynnodd y llythyr sylw hefyd at wariant ychwanegol arall £160,000 gan y Comisiwn o ganlyniad i Covid-19, yn bennaf mewn perthynas ag offer TGCh, offer swyddfa gartref, arwyddion yr ystâd, glanweithydd, cyfarpar diogelu personol, a gostyngiad yn incwm siop y Senedd.

**13.** Roedd y llythyr hefyd yn rhoi manylion am y gostyngiad o ran y costau neu'r arbedion a wnaed, a'r gwerth cyfanredol oedd £985,000 yn 2020-21. Effaith net hyn a'r costau Covid-19 ychwanegol (£160,000) oedd arbediad net cyffredinol £825,000. Nodwn y defnyddiodd y Comisiwn £474,000 o hyn i ariannu'r galw cynyddol ar y Gronfa Prosiectau, gwaith cynnal a chadw a chynaliadwyedd ar yr ystâd, gan gynnwys cynnal a chadw lifftiau, gosod larymau tân a goleuadau LED newydd, system recriwtio newydd, a system rheoli mynediad newydd ar gyfer MS Office. Roedd y £408,000 a oedd yn weddill 'heb ei ddefnyddio' ar ddiwedd y flwyddyn.

**14.** Bu angen i'r Comisiwn addasu cynlluniau, penderfyniadau a threfniadau rheoli risg mewn ymateb i'r pandemig, yn enwedig o gofio bod y ffocws wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf o gefnogi busnes rhithwir i gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r swyddfa.

**15.** Mae'r Bwrdd Gweithredol (ynghyd â'r Prif Gyngorydd Cyfreithiol, y Pennaeth Llywodraethu ac uwch-swyddogion cymorth y Llywydd) wedi cadw'r cyfrifoldeb gweithredol dros reoli ymateb y Comisiwn i'r pandemig, gan uwchgyfeirio i'r Llywydd ar gyfer penderfyniadau gwleidyddol neu arwyddocaol.

**16.** Nodwn y sefydlwyd grŵp i ddechrau'r broses gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ystâd a mynegi penderfyniadau i'r Aelodau, y staff, y cyfryngau a'r cyhoedd. Cafodd y grŵp ei ddisodli gan grŵp Adrodd a Monitro Covid, sy'n monitro newidiadau i reoliadau Covid sy'n effeithio ar y Comisiwn ac yn cynghori'r Bwrdd Gweithredol, yn datblygu ac yn adolygu asesiadau risg, ac yn monitro data ynglŷn â'r effaith ar iechyd a llesiant y gweithlu.

**17.** Rydym yn falch o glywed bod monitro'r gyllideb yn agos a nodi arbedion yn gynnar, er enghraifft, teithio a chynhaliaeth, wedi galluogi ailflaenoriaethu cyllid i ddarparu offer ar gyfer

gweithio gartref, a gwneud yr addasiadau angenrheidiol i amgylchedd y swyddfa. Mae hyn yn cynnwys creu lleoedd cyfarfod rhithwir a hybrid i staff y mae angen iddynt fod ar y safle.<sup>2</sup>

**18.** Rydym yn croesawu mwy o gyfathrebu a'r trefniadau llywodraethu cryfach sydd wedi galluogi'r Comisiwn i nodi materion a heriau sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt yn brydlon.

## **Caffael a chontractwyr**

**19.** Gwnaeth ein Pwyllgor blaenorol argymhellion ynghylch cyfran y contractau i gyflenwyr o Gymru ac y dylai'r Comisiwn gaffael mwy o gyflenwyr nwyddau a chynhyrchion o Gymru sydd o darddiad Cymreig, oni bai nad ydynt ar gael am gost resymol. Argymhellodd hefyd y dylai'r Comisiwn gymryd camau i alluogi mwy o gwmnïau o Gymru i gynnig am gontractau, megis drwy rannu contractau mawr yn rhai llai.

**20.** Nodwn, ym mis Mawrth 2020, y lluniodd Swyddfa'r Cabinet Nodyn Polisi Caffael gan nodi y dylai awdurdodau contractio weithredu nawr i gefnogi cyflenwyr mewn perygl, fel y gallant ymdopi'n well â'r argyfwng a dychwelyd i ddarparu gwasanaethau yn y modd arferol a chyflawni eu rhwymedigaethau dan gontract ar ôl i'r pandemig ddod i ben. Nododd hefyd y dylai awdurdodau contractio weithredu i barhau i dalu cyflenwyr mewn perygl oherwydd Covid-19 ar sail trefniadau parhad a chadw.

**21.** Yn ei Gyfrifon, ystyriodd y Comisiwn bob contract ar wahân a thalodd £363,000 i gefnogi a sicrhau cysylltiadau cyflenwi pan nad oedd yn cael gwasanaethau. Nodwn y rhain ac rydym yn fodlon yr adroddir eu bod yn unol â chyfarwyddiadau Swyddfa'r Cabinet ac y bydd yr archwilwyr allanol wedi'u hystyried.

**22.** Mae'r Comisiwn yn mesur ei gynnydd o ran caffael mwy gan gyflenwyr o Gymru drwy DPA, sef 43 y cant o wariant cyflenwyr i fod gyda chwmnïau yng Nghymru erbyn diwedd y Senedd hon. Mae'r Cyfrifon yn adrodd mai 38 y cant yw gwariant caffael y Comisiwn yn 2020-21 gyda chyflenwyr o Gymru, sy'n llai na'r llynedd, sef 39 y cant.

**23.** Gofynnwyd a oedd y Comisiwn mewn sefyllfa i gyrraedd ei darged 43 y cant eleni gan nodi bod pob pwynt canran ychwanegol o gaffael cyhoeddus ar draws Cymru yn arwain at greu swyddi ychwanegol a hwb i economi Cymru.

**24.** Clywsom fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar gyfran gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr yng Nghymru, oherwydd gostyngiadau mewn gwariant drwy gontractau arlwygo a

---

<sup>2</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 11



darlledu. Er mwyn monitro cynnydd, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi diweddariad bob chwe mis.

**25.** Hefyd, clywsom fod cyfran sylweddol o wariant y Comisiwn ar gontractau ynni, gwres a TGCh gyda chwmnïau mawr y tu allan i Gymru oherwydd na ddarperir y gwasanaethau hyn gan gwmnïau yng Nghymru. Nodwn yr ymdrechion a wneir gan y Comisiwn i rannu contractau mwy'n unedau llai er mwyn deall yn well pa wasanaethau y gellir eu darparu yng Nghymru, ac i gysylltu ac ymgysylltu â marchnad Cymru. Mae adnoddau staff wedi'u dyrannu i wneud hyn, ac mae'r Comisiwn yn "gwthio ni'n galed" a bydd yn "dadansoddi ac yn ailddadansoddi" ei wariant i wneud ei orau, ond bydd cyrraedd y targed 43 y cant yn her o hyd.<sup>3</sup>

**26.** Rydym yn cydnabod yr heriau i gyrraedd y targed 43 y cant o wariant cyflenwyr i fod gyda chwmnïau yng Nghymru ond nid yw'r rhesymau dros beidio â chyrhaedd y targed hwn yn ein hargyhoeddi. Credwn y gall fod angen i'r ffigwr targed adlewyrchu ei bod yn debygol y caiff y targed hwn ei gyrraedd drwy dwf parhaus o flwyddyn i flwyddyn iddo fod o fewn cyrraedd y Comisiwn.

**Argymhelliad 2.** Er mwyn helpu'r Comisiwn i gynyddu ei wariant ar gyflenwyr o gwmnïau yng Nghymru, rydym yn argymhell ei fod yn cynnal ymarfer i rannu terfynau gwariant contract, h.y. mewn dosbarthiadau llai na £10,000, llai na £50,000 llai na £100,000, llai na £500,000 a mwy na £500,000 a dadansoddi lledaeniad ariannol y contractau a ddyfernir i nodi cyfleoedd i rannu contractau mwy ac i gynyddu'r tebygolrwydd y bydd cwmnïau llai yng Nghymru yn cyflwyno cynnig llwyddiannus am gontract. Byddem yn croesawu diweddariad bob chwe mis ar y cynnydd yn y maes hwn.

## Staffio

**27.** Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith craffu ein Pwyllgor blaenorol ar Gyfrifon y Comisiwn wedi canolbwyntio ar faterion staffio i raddau helaeth. Yn benodol, roedd yn canolbwyntio ar gynlluniau diswyddo gwirfoddol, nifer y staff, cyfle cyfartal i gymunedau lleiafrifoedd ethnig a staffio o bob grŵp economaidd-gymdeithasol a chyfraddau absenoldeb.

**28.** Nodwn fod gan y Comisiwn weithlu cytbwys o ran rhyw, ar draws ei weithlu cyffredinol, yn ogystal â'i Fwrdd Gweithredol a'i Grŵp Arwain. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o fenywod yn gweithio'n rhan-amser na dynion (28.6 y cant a 6.4 y cant ar gyfer menywod a dynion yn y drefn honno). Mae'r cyflogau cymedrig a chanolrifol yn uwch i fenywod nag i ddynion, ond

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 97

mae'r bwlch cyflog hwn wedi lleihau. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn 2020-21 oedd -5.3 y cant a'r bwlch cyflog canolrifol oedd -9.8 y cant.

**29.** Mae'r bwlch cyflog LHDTC+ yn fach ac wedi newid o fwllch positif i fwllch sydd ychydig yn negatif. Y rheswm dros hyn a nodir yw cynnydd yn nifer y bobl sy'n datgan eu bod yn LHDTC+, yn enwedig ar raddau cyflog is.

**30.** Argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol y dylai'r Comisiwn adeiladu ar waith i ymgysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill a datgelu'r bwlch cyflog ethnigrwydd. Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn wedi newid sut y mae'n adrodd ar wybodaeth yn y maes hwn.

**31.** Nodwn fod y bwlch cyflog ethnigrwydd yn sylweddol. Y bwlch cyflog cymedrig yw 27.8 y cant a'r bwlch cyflog canolrifol yw 38.9 y cant. Mae'r ddau ohonynt yn uwch na'r llynedd (20.9 y cant a 23.6 y cant ar gyfer y bwlch cyflog cymedrig a'r bwlch cyflog canolrifol yn y drefn honno).

**32.** Mae archwiliad cyflog cyfartal 2021 yn nodi'r prif ysgogwyr a ganlyn:

- Nifer gyfyngedig o staff BAME a gyflogir gan y Comisiwn fel canran gyffredinol o'r gweithlu cyffredinol;
- Mae staff BAME yn cael eu cyflogi'n bennaf mewn bandiau is ar y raddfa gyflog (mae 57 y cant o staff BAME ar y lefel Prentis/Cymorth Tîm).

**33.** Yn adroddiad blynyddol 2020-21 ar amrywiaeth a chynhwysiant, mae'r Comisiwn yn nodi'r gwaith a wnaed gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig i gael ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr am y cynllun Prentisiaeth, ond mae'n cydnabod bod heriau mwy o ran cynrychiolaeth yn y graddau uwch.

**34.** Rydym yn falch bod adrodd ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant wedi'i ehangu i ddangos dadansoddiadau o broffil oedran, rhyw a hil ymgeiswyr yn ôl nifer yr ymgeiswyr a chyfraddau llwyddiant.

**35.** Yn ei adroddiad mae'r Comisiwn yn nodi bod 5.0 y cant o'r gweithlu wedi datgan eu bod yn ystyried bod ganddynt anabledd gydag 83.1 y cant yn dweud eu bod yn ystyried nad oes ganddynt anabledd. Nid yw 11.9 y cant o staff eleni wedi datgan a ydynt yn ystyried bod ganddynt anabledd ai peidio.

- 36.** Mae'r Comisiwn hefyd yn adrodd ar y bwlch cyflog anabledd. Mae'n nodi bod y bwlch cyflog canolrifol rhwng staff nad ydynt yn anabl o'i gymharu â staff sy'n ystyried bod ganddynt anabledd yw 0.0% ar gyfer y cyfanswm cyflog canolrifol.
- 37.** Gofynnwyd sut roedd llwyddiant mentrau i gynyddu amrywiaeth yng ngweithlu'r Comisiwn yn cael ei fesur, yn enwedig o ran denu staff o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Comisiwn bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y sefydliad yn fwy cynrychioliadol o gofio bod y data'n pwysleisio ei fod yn cael ei dangynrychioli, yn enwedig ar lefel uwch a gwneud penderfyniadau.
- 38.** Dywedwyd wrthym fod y Comisiwn wedi cyflwyno deunydd brandio cynhwysol ac, erbyn hyn, mae'n hysbysebu ar sbectrwm ehangach o lwyfannau ac mae ganddo ymgyrchoedd recriwtio penodol. Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud i weithio ochr yn ochr ag arweinwyr cymunedol ac aelodau Busnes yn y Gymuned Cymru a chyrrff sector cyhoeddus yn ehangach.<sup>4</sup>
- 39.** Clywsom am greu rhaglen interniaeth graddedigion newydd a fydd yn ceisio dod â thalent amrywiol ar raddau uwch a chynllun datblygu a hyfforddi penodol i staff presennol sy'n nodi eu bod yn perthyn i'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dywedwyd y canlynol wrthym hefyd:
- "Every recruitment campaign is looked at from a diversity and inclusion perspective, and we're engaging with specialist partners to help us develop a disability action plan, exploring lessons learned from last years' experience of different ways of working".<sup>5</sup>*
- 40.** Rhoddwyd tystiolaeth i ni yn nodi bod gwaith yn cael ei wneud i nodi a mesur yn erbyn y meincnodau data perthnasol i sicrhau bod dadansoddi data yn ystyrlon ar draws nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig i ddata BAME.<sup>6</sup>
- 41.** Nid yw'r bwlch cyflog symudedd cymdeithasol/dosbarth yn cael ei fonitro na'i adrodd, ond mae'r Comisiwn yn nodi y bydd, o 1 Ebrill 2021, yn casglu, yn dadansoddi ac yn adrodd ar ddata amrywiaeth symudedd economaidd-gymdeithasol/cymdeithasol i'n helpu i gael dealltwriaeth well o gyfansoddiad economaidd-gymdeithasol yr ymgeiswyr am swyddi a'r gweithlu. Mae'n nodi hefyd y bydd yn ystyried sut i gasglu gwybodaeth am symudedd

---

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 107

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 108

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 109

cymdeithasol staff presennol ac ymgeiswyr, ynghyd â thanysgrifio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gael data wedi'u meincnodi.

**42.** Rydym yn falch bod y Comisiwn yn casglu data am symudedd economaidd-gymdeithasol/cymdeithasol ond rydym yn cydnabod mai dim ond ers misoedd y mae'r Comisiwn wedi bod yn casglu'r data hyn. Felly, mae'n rhy gynnar i gael trosolwg neu ddadansoddiad o'r data hynny. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a roddwyd i ni gan y Comisiwn i ysgrifennu atom ym mis Ebrill 2022 gyda diweddariad ar gynnydd meincnodi data economaidd-gymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i roi set ddata 12 mis lawn i'r Pwyllgor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022.<sup>7</sup>

**43.** Rydym yn croesawu'r mentrau y mae'r Comisiwn wedi'u cyflwyno a'i ymdrechion parhaus i gynyddu amrywiaeth yn ei weithlu ac yn nodi bod hyn yn parhau i fod yn faes y mae angen ei ddatblygu a'i wella ymhellach.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i weithio i ddeall ysgogwyr sy'n arwain at y gynrychiolaeth isel yn ei weithlu o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau economaidd-gymdeithasol is ac yn cryfhau polisiau ac yn cymryd camau i leihau rhwystrau canfyddedig a bylchau cyflog i'r grwpiau hyn a grwpiau amrywiol eraill.

**44.** Yn ei Adroddiad Gwaddol, dywedodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd y canlynol:

*"Rydym hefyd wedi ymddiddori'n frwd yn arolygon staff blynyddol Comisiwn y Senedd fel rhan o'n gwaith craffu ar ei adroddiadau blynyddol a'i gyfrifon. Yn ein hadroddiad ar gyfrifon 2019-20, gwnaethom argymell y dylai'r Comisiwn sicrhau bod arolygon staff, yn y dyfodol, yn gyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau y gellir dod i gasgliadau ystyrion am dueddiadau tymor hir o'u canfyddiadau. Hefyd, gwnaethom argymell y gofynnir cwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnir yn arolygon staff deddfwrfeydd a chyrrff cyhoeddus eraill er mwyn i'r canlyniadau gael eu meincnodi. Awgrymwn fod ein Pwyllgor olynol yn mynd ar drywydd y maes hwn wrth graffu ar gyfrifon 2020-21 Comisiwn y Senedd".<sup>8</sup>*

**45.** Cynhaliwyd arolwg staff y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2020 a chynhaliwyd arolygon blaenorol ym mis Rhagfyr 2018 i fis Ionawr 2019 a mis Mai 2017. Cafodd yr arolwg diweddaraf

---

<sup>7</sup> Llythyr gan y Prif Weithredwr a Chlerc, Comisiwn y Senedd, 22 Hydref 2021

<sup>8</sup> Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2016 – 2021, **Adroddiad Gwaddol**, paragraff 124 (Mawrth 2021)

---

---

hwn ei reoli gan gwmni allanol am y tro cyntaf. Yr unig DPA sy'n gysylltiedig â'r arolwg hwn yw sgôr hapusrwydd y gwasanaeth sifil. Dangosir cymariaethau â chanlyniadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol gyda sgôr ymgysylltu na ellir ei gymharu'n uniongyrchol.

**46.** Mae'r sgôr hapusrwydd, o'r arolwg diweddaraf, ynghyd â'r sgôr ymgysylltu cyfatebol o'r tri arolwg blaenorol, yn gyson uwch na sgoriau canolrifol y Gwasanaeth Sifil.

**47.** Dyma'r unig sgôr a gyhoeddwyd o'r arolwg hwn. Yn wahanol i Lywodraeth Cymru a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill, gan gynnwys Archwilio Cymru, nid yw canlyniadau'r arolwg ar gael i'r cyhoedd.

**48.** Ar y sail hon, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2019 y dylai'r Comisiwn gyhoeddi'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob cwestiwn unigol yn yr arolwg staff. Dylai hyn gynnwys data cymharol dros dair blynedd. Ymatebodd y Comisiwn ym mis Mawrth 2020, gan dderbyn yr argymhelliad, yn amodol ar ymgynghoriad.

*"Bydd y Comisiwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cynnal ymgynghoriad".<sup>9</sup>*

**49.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Prif Weithredwr a Chlerc fod prif ganlyniadau arolwg staff blynyddol y Comisiwn wedi'u cyhoeddi<sup>10</sup> a'u bod ar gael ar wefan Comisiwn y Senedd.<sup>11</sup>

**50.** Rydym yn falch o nodi bod perfformiad y Comisiwn ychydig yn well na meincnod y diwydiant ar draws holl ganfyddiadau'r arolwg staff. Mae hyn yn galonogol ac yn ein sicrhau bod gwaith y Comisiwn i ymgysylltu â'i staff yn gweithio'n dda.

**51.** Esboniwyd i ni nifer o fentrau i gefnogi staff, yn enwedig yn ystod y pandemig, a chlywsom fod canlyniadau'r arolwg staff yn pwysleisio bod staff yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'u bod yn teimlo'n wybodus ac yn cael cymorth. Mae perfformiad y Comisiwn wedi aros yn uchel drwy flaenoriaethu prosiectau, cyfathrebu'n rheolaidd rhwng timau, bod yn hyblyg o ran oriau gwaith a chamau parhad busnes eraill.<sup>12</sup>

**52.** Drwy gydol y pandemig, mae'r Comisiwn wedi blaenoriaethu llesiant ac iechyd staff a dywedwyd bod hyn yn egwyddor arweiniol ar gyfer gweithgarwch fel sicrhau bod rheolwyr llinell

---

<sup>9</sup> [Llythyr](#) gan Gomisiwn y Senedd, 18 Mawrth 2020

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 126

<sup>11</sup> [Linc](#) i arolwg 2020, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 131

a chydweithwyr yn siarad yn rheolaidd a bod llesiant wedi'i wirio'n rheolaidd. Mae hyn wedi rhoi data i'r Bwrdd Gweithredol sydd wedi'u defnyddio gyda data absenoldeb a thueddiadau'r gweithlu i helpu'r Bwrdd Gweithredol i wneud penderfyniadau mewn da bryd a mabwysiadu dulliau newydd neu wahanol yn ôl yr angen.<sup>13</sup>

**53.** Mewn perthynas â materion staffio ar lefel uwch, gofynnwyd a ystyriwyd lleihau haenau rheoli yn y sefydliad. Roeddem yn falch o glywed bod y Comisiwn yn cynnal Adolygiad Capasiti ac rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy o fanylion am nodau, cynnydd a chanlyniadau'r adolygiad hwn erbyn y gwanwyn nesaf.

## Cynaliadwyedd

**54.** Cyrhaeddodd y Comisiwn ddiwedd ei ail Strategaeth Lleihau Carbon yn ystod 2020-21, a oedd yn cynnwys cyfres o dargedau cynaliadwyedd hyd at 2021. Yn ei Adroddiad Cynaliadwyedd ar gyfer 2020-21, mae'n nodi bod y newid yn y defnydd o'r ystâd oherwydd y pandemig wedi "newid... yn sylweddol" ei effeithiau amgylcheddol.

**55.** Mae'r adroddiad blynyddol ar gynaliadwyedd 2020-21 hefyd yn amlinellu'r perfformiad o ran cyflawni'r targedau allweddol:

- Lleihau allyriadau ynni 30 y cant erbyn 2021, yn seiliedig ar waelodlin 2012-13;
- Gwella effeithlonrwydd teithio mewn car ar gyfer busnes 10 y cant erbyn 2021, yn seiliedig ar waelodlin 2013-14;
- Peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2021;
- Trosglwyddo o reoli gwastraff i reoli adnoddau'n gynaliadwy erbyn 2020-21;
- Defnyddio 5 y cant yn llai o ddŵr yfadyw ar draws yr ystâd erbyn 2021, yn seiliedig ar waelodlin 2014-15.

**56.** Mae'r Comisiwn yn adrodd ei fod wedi cyflawni'r targedau a bennwyd yn y tri phwynt bwled cyntaf uchod, ond mae'n nodi bod gwaith ar drosglwyddo i reoli adnoddau'n gynaliadwy yn dal i fynd rhagddo, gan ychwanegu bod y "gwaith ar becynnau plastig yn parhau".

**57.** O ran y targed a bennwyd yn y pwynt bwled olaf uchod, mae'r Comisiwn yn nodi bod ei ddefnydd o ddŵr cludadwy wedi cynyddu 1.6 y cant o'i gymharu â 2014-15 (y flwyddyn waelodlin) yn erbyn ei darged i'w lleihau 5 y cant. Mae'n esbonio bod y "galw cyhoeddus yn dylanwadu'n bennaf ar y defnydd, ac eleni gwnaethom brofi rhai problemau cynnal a chadw".

---

<sup>13</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 132

---

**58.** Cyhoeddodd y Comisiwn Strategaeth Carbon Niwtral newydd yn ddiweddar. Bydd hyn yn cynnwys dull tri cham ar gyfer dod yn garbon niwtral erbyn 2030 gyda'r targedau a ganlyn:

- Tymor byr (2021-23) – newid ymddygiadol, gwelliannau rheoli busnes, monitro a gwaith parhaus ar oleuadau LED;
- Tymor canolig (2023-26) – aerdymheru, cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal, gosod solar yn y Senedd a Thŷ Hywel;
- Tymor hwy (erbyn 2030) – pypiau gwres ffynhonnell aer ar gyfer dŵr poeth, costau teithio a chynhaliath Aelodau o'r Senedd ar gyfer teithio mewn cerbydau trydan yn unig.

**59.** Clywsom y bydd y Comisiwn yn parhau i weithio ar leihau ei ôl troed carbon, ond bydd yn heriol cynnal y lefel isel o deithio busnes i'r gwaith a gyflawnwyd pan fo staff wedi bod yn gweithio gartref. Wrth i staff ddychwelyd i'r swyddfa a theithio busnes gynyddu ar ôl y pandemig, bydd dulliau newydd o annog staff i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu trafod, yn ogystal â chymorth i brynu cerbydau trydan. At hynny, anogir y defnydd parhaus o dechnoleg i sicrhau nad oes rhaid i staff deithio pan nad oes angen gwneud hynny.

**60.** Wrth edrych i'r dyfodol, bydd angen newidiadau diwylliannol i gyrraedd y targed niwtraliaeth carbon erbyn 2030 ac mae gwaith cynllunio eisoes wedi dechrau i weithio tuag at hyn. Bydd angen canllawiau ac arweinyddiaeth, yn ogystal ag ymrwymiad gan y Comisiwn cyfan i ysgogi'r newid mewn ymddygiad.<sup>14</sup>

**61.** Rydym yn falch o'r cynnydd y mae Comisiwn y Senedd wedi'i wneud wrth gyrraedd ei dargedau cynaliadwyedd ac mae'n rhaid canmol hyn. Bydd rôl bwysig i'r Pwyllgor hwn wrth fonitro cynnydd a chyfrannu i sicrhau'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen i gadw cynaliadwyedd ymhlith gweithgareddau pennaf y Comisiwn. Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn parhau i berfformio'n dda yn y maes hwn.

**62.** Trafodwyd yr heriau i ddeall effaith y pandemig a helpu'r Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn i leihau allyriadau carbon wrth weithio gartref ac yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Rydym yn edrych ymlaen at gael canllawiau gan y Comisiwn ynghylch sut y gellir cyflawni hyn.<sup>15</sup>

---

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 146

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraffau 147-148

**63.** Rydym yn canmol y Comisiwn ynghylch cyhoeddi'r Strategaeth Carbon Niwtral 10 mlynedd. Wrth fodloni'r nodau hyn a gwireddu'r dyheadau hyn yn y strategaeth, rydym yn argymhell y bydd angen adeiladu ar brofiad o ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig gyda chymorth canllawiau clir, arweinyddiaeth ac ymroddiad.

### **Plastigau untro**

**64.** Mae'r Pwyllgor a'r Senedd leuenctid wedi pwyso ar y Comisiwn i weithredu ar blastigau untro. Mae'r Adroddiad Cynaliadwyedd ar gyfer 2020-21 yn nodi bod y cynnydd hwnnw "*wedi'i ohirio oherwydd y pandemig, ond byddwn yn parhau i gael gwared ar ffynonellau plastig untro lle mae hynny'n bosibl yn y dyfodol*".

**65.** Rydym yn cydnabod gwaith y Senedd leuenctid wrth roi mwy o ffocws ar leihau plastigau untro a'r ymdrechion sylweddol gan y Comisiwn i leihau'r defnydd o blastigau o'r fath. Cawsom ein sicrhau bod y defnydd o blastigau untro bellach yn fach iawn a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda chyflenwyr i edrych ar y mathau o blastigau sydd ar gynhyrchion pan maent yn cyrraedd.<sup>16</sup> Rydym yn llongyfarch y Comisiwn ar ei gynnydd yn y maes hwn ac yn croesawu hyn.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymhell bod y Comisiwn yn darparu diweddariad bob chwe mis ar y defnydd o blastig untro.

---

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 144